

Cwestiynau Cyffredin am Asbestos

Pam mae'n rhaid i mi archebu lle ar gyfer yr eitem hon?

Mae trefn archebu lle yn cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau diogelwch staff y safle a phreswylwyr eraill trwy roi amser i wirio bod y gwastraff peryglus hwn wedi'i lapio a'i selio yn y bagiau cywir, sydd ar gael gan Sir y Fflint yn Cysylltu ar ôl i chi archebu lle. *Mae CSFf yn cynghori'n gryf bod preswylwyr sy'n dod o hyd i Asbestos yn eu heiddo yn trefnu bod cwmni proffesiynol gwaredu Asbestos yn cael gwared ar yr Asbestos a'i gasglu'n ddiogel *

Pam ydych chi'n rhoi cyfyngiadau ar yr eitem hon?

Mae Asbestos yn ddeunydd hynod o beryglus ac mae angen cymryd gofal mawr wrth ei drin. Ni ddylid fyth torri Asbestos yn ddarnau oherwydd mae'n rhyddhau fffibrau llidiog sy'n hynod o beryglus os cânt eu hanadlu i mewn. Dylai darnau a symiau mawr gael eu trin gan gontractwr arbenigol â thrwydded.

Beth yw maint y bagiau coch?

25 - 30kg 1200 x 900 mm

Os oes gen i drwydded ar gyfer fan neu drelar, ai dim ond i'm safle trwyddedig y caniateir i mi fynd?

Caniateir eithriadau ar gyfer y deunydd hwn, ochr yn ochr ag archeb, oherwydd mai dim ond yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Bwcle y caiff ei dderbyn.

Beth fydd yn digwydd os bydda i'n hwyr?

Mae'r slotiau amser yn 2 awr o hyd. Os na fyddwch chi'n cyrraedd o fewn y cyfnod hwn, bydd eich archeb chi'n annilys.

Beth fydd yn digwydd os bydda i'n methu fy niwrnod/amser?

Bydd angen i chi gysylltu â Gwasanaethau Stryd ar 01352 701234 os ydych chi am aildrefnu.

Beth alla i wneud os oes gen i fwy na'r swm a ganiateir?

Bydd y ddolen isod yn mynd â chi at restr o gludwyr gwastraff peryglus cofrestredig <https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/check-for-a-permit-licence-or-exemption/?lang=cy>

A allaf i lapio darnau mawr o Asbestos mewn polythen i'w gludo i'r safle?

NI chaiff Asbestos ei dderbyn os **NAD** yw wedi'i lapio ddwywaith yn y bagiau coch a chlir cywir a ddarperir ar gyfer Asbestos. Mae'r rhain ar gael yn Swyddfa Sir y Fflint yn Cysylltu. Mae'n rhaid selio bagiau Asbestos cyn dod â nhw i'r safle.